# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 4 Hydref 2011**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Pleidleisiau a Thrafodion
(19)

**1. Cwestiynau i'r Prif Weinidog**

Gofynnwyd y 14 cwestiwn.  Gwahoddodd y Llywydd arweinwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog ar ôl cwestiwn 2.

**14.23**
**2. Datganiad a Chyhoeddiad Busnes**

**14.38**
**3. Datganiad gan y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Ty: Y Gyllideb Ddrafft**

**15.35**
**4. Datganiad gan y Cwnsler Cyffredinol: Hygyrchedd i gyfreithiau Cymru a datblygu llyfr statud i Gymru**

**16.12**
**5. Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd: Rhaglenni Ewropeaidd yn y dyfodol yng Nghymru**

**16.42**
**6. Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar Fil Senedd y DU ynghylch Lleoliaeth**

**NDM4808 Carl Sargeant (Alun a Glannau Dyfrdwy)**

Bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried, yn ogystal â'r darpariaethau y cyfeirir atynt yng nghynigion NNDM4642, NNDM4722 ac NNDM4785, y darpariaethau ychwanegol hynny a

gyflwynwyd i’r Bil Lleoliaeth ynghylch Rhagdybiaethau Cynllunio Gorchmynion Prynu Gorfodol, Sail 16 Atodlen 2 Deddf Tai 1985 ac Asedau ag iddynt Werth Cymunedol, i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**16.50**

**7. Dadl ar yr Adroddiad Blynyddol ar Ddatblygu Cynaliadwy**

**NDM4813 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi'r cynnydd sydd wedi'i wneud ar ddatblygu cynaliadwy yn 2010-11, fel y nodir yn Adroddiad Llywodraeth Cymru ar y Cynllun Datblygu Cynaliadwy, a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 22 Medi 2011.

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a’r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn mynegi pryder nad yw Llywodraeth Cymru byth wedi prif ffrydio datblygu cynaliadwy yn llawn yn y ffordd mae’n gweithio ac yn datblygu polisïau.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 15 | 0 | 38 | 53 |

**Gwrthodwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru ddarparu gweledigaeth strategol well o sut caiff datblygu cynaliadwy ei wreiddio ar draws strategaethau, polisïau a chynlluniau unigol a sut maent yn cyfuno i gyfrannu at gynnydd mesuradwy yn erbyn y Dangosyddion Datblygu Cynaliadwy.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 15 | 0 | 38 | 53 |

**Gwrthodwyd gwelliant 2.**

**Gwelliant 3 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno camau cywiro ar frys i adfer y 22 Dangosydd Datblygu Cynaliadwy ar gyfer 2011 sydd wedi dirywio neu nad ydynt wedi gwella.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 3:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 15 | 0 | 38 | 53 |

**Gwrthodwyd gwelliant 3.**

**Gwelliant 4 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithredu’n llawn yr argymhellion a wnaethpwyd yn yr Adroddiad Blynyddol gan y Comisiynydd Dyfodol Cynaliadwy a Cynnal Cymru.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 4:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 43 | 0 | 10 | 53 |

**Derbyniwyd gwelliant 4.**

**Gwelliant 5 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi bod y ddogfen “Dangosyddion Datblygu Cynaliadwy 2011" yn dangos bod y Llywodraeth wedi symud ymlaen gydag oddeutu hanner ei dangosyddion ond yn gresynu ei bod yn dangos y bu dirywiad clir mewn dangosyddion ar gyfer allyriadau nwyon tŷ gwydr a newidiadau tymor byr mewn poblogaeth adar.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 5:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 13 | 1 | 39 | 53 |

**Gwrthodwyd gwelliant 5.**

**Gwelliant 6 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu bod yn rhaid i ddatblygu cynaliadwy gynnwys lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr o ffynonellau domestig, ac yn galw am gynnydd yn y cyllid cyfalaf sydd ar gael i fynd i’r afael â thlodi tanwydd.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 6:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 13 | 0 | 39 | 52 |

**Gwrthodwyd gwelliant 6.**

**Gwelliant 7 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar y Llywodraeth i gomisiynu archwiliad annibynnol o'i pholisïau i hybu datblygu cynaliadwy.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 7:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 14 | 0 | 39 | 53 |

**Gwrthodwyd gwelliant 7.**

**Gwelliant 8 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn croesawu'r cynnydd sydd wedi cael ei wneud gan awdurdodau lleol tuag at dargedau ailgylchu.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 8:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 43 | 0 | 10 | 53 |

**Derbyniwyd gwelliant 8.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi'i ddiwygio:**

**NDM4813 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi'r cynnydd sydd wedi'i wneud ar ddatblygu cynaliadwy yn 2010-11, fel y nodir yn Adroddiad Llywodraeth Cymru ar y Cynllun Datblygu Cynaliadwy, a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 22 Medi 2011.

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithredu'n llawn yr argymhellion a wnaethpwyd yn yr Adroddiad Blynyddol gan y Comisiynydd Dyfodol Cynaliadwy a Cynnal Cymru.

Yn croesawu'r cynnydd sydd wedi cael ei wneud gan awdurdodau lleol tuag at dargedau ailgylchu

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 53 | 0 | 0 | 53 |

**Derbyniwyd y cynnig wedi'i ddiwygio.**

**17.30**
**Cyfnod pleidleisio**

Daeth y cyfarfod i ben am 17.33

**Bydd y Cynulliad yn cwrdd eto yn y Cyfarfod Llawn am 13:30 Dydd Mercher, 5 Hydref 2011**